Gofalu am Natur – Gardd y Peillwyr

Yr ardd

Arianwyd y llecyn hwn gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol ar gyfer mannau Natur lleol, Cyngor Tref Llandrindod, Cyngor Sir Powys ynghyd â Llywodraeth Cymru. Fe'i grëwyd yn 2021.

Ei bwrpas yw i ddod â natur a phobl ynghyd mewn llecyn tawel sy'n defnyddio'r synhwyrau i gyd tra'n rhoi teimlad o ymlacio ar yr un pryd.

Mae 95% o'r hen ardd wedi'i ailgylchu mewn un ffordd neu'i gilydd, gan ddefnyddio'r rwbel fel draeniad ar gyfer y gwely ar godi mawr.

Mae'r cynllun mewn arddull Geltaidd gyda llwybrau sy'n cydblethu er mwyn galluogi pobl i gerdded o gwmpas yn hawdd.

Gosodwyd y llwybr ar rwbel wedi'i ailgylchu a ffurfiwyd yr ail haenen o rwber wedi'i ailgylchu.

Gadawyd y llwyni cyfagos i dyfu'n naturiol gyda boncyffion a brigau darfodus yn hafan i'r "bwystfilod bach" (pryfed a chwilod).

Mae'r bedw arian wedi'u lleoli ar gyfer rhoi cyfle i amrywiaeth o adar i glwydo. Hefyd yn y gornel gefn, ceir planhigion megis Lavatera ac amryw o luosflwydd llysieuol er mwyn rhoi'r ymdeimlad o'r newid yn y tymhorau.

Fe ychwanegir Lelog a Choed Mêl er mwyn creu arogl, ysbrydoliaeth a bwyd i'r amrywiaeth o wenyn, glöynnod byw a'r bwystfilod bach.

Fe fydd amrywiaeth o fylbiau yn help i arddangos y newid yn y tymhorau.

Mae'r cylch mewnol yn cynnwys planhigion persawrus a bwytadwy ar gyfer golwg a chyffyrddiad, megis gweiriau tal, lafant, rhosynnau, rhosmari a llawryfau.

Lleolir meinciau dwbl ar gyfer dau berson o fewn yr ardd, rhai gydag hygyrchedd ar gyfer cadeiriau olwyn a phramiau wrth eu hochrau.

Cynlluniwyd y gwely canolog gyda theuluoedd mewn golwg, lle gall pobl eistedd ar y ddwy ochr a phlant lleol yn gallu plannu'u hadau'u hunain yn y canol.

Lle mae'n bosibl, chwiliwyd am ffynonellau lleol ar gyfer planhigion a deunyddiau gan gynnwys y fynedfa fwaog, ac ailgylchwyd yr hen ddeunydd i gyd fel rhan o'n hymroddiad i newid hinsawdd.

Adeiladwyd y blychau adar ac ystlumod o bren wedi'i ailgylchu gan Llandrindod Mens Shed.

Gair i Gall! Er mwyn helpu'r gwenyn, plannwch flodau sy'n gyfaill i'r gwenyn ar gyfer pob tymor

Blodau'r Gwanwyn
Rhyfwydden Flodeuog, Comffri, Crocws

Blodau ar gyfer dechrau'r haf
Garlleg, Blodau'r Sipsi, Tafod yr Ych, Clychlys, Mintys y Gath, Croesgoch y Perthi, Ysgallen Bengron, Pabi, Rhosmari, Teim, Corswigen, Bysedd y Cŵn

Blodau ar gyfer diwedd yr haf
Cosmos, Echinacea, Gwyddfid, Lafant, Marjoram, Celyn y Môr, Bywlysiau, Llysiau'r Pannwr, Ferfain

Cronfa Dreftadaeth Heritage Fund
Powys

Synhwyrau a Phlannu

Arogl – mae ein trwynau yn sylwi ar aroglau cryf a chain megis blodau sydd wedi blodeuo, glaswellt miniog neu fwyd yn coginio.

Mae'n synnwyr arogl yn gysylltiedig â rhan o'n ymennydd sy'n ymwneud ag emosiynau ac sy'n cysylltu atgofion ag aroglau.

Lafant

Rhosyn

Coeden Lelog

Mae'r ardd synhwyraidd yn hybu cynhwysiant ac hygyrchedd, gan weithio'n agos gyda'r synhwyrau ac yn annog archwiliad, chwilfrydedd a dysgu tra'n mwynhau'r awyr agored. Mae'r planhigion yn yr ardd yn dwysáu'r synhwyrau i gyd. Arogl, sain, saincyffwrdd, golwg a blas.

Mae perlysiau persawrus, planhigion â dail blewog, gweirydd sy'n siffrwd.

Fe fydd yr ardd yn parhau i dyfu ac i wella gyda threigl amser gydag ychwanegiadau newydd yn y dyfodol.

Cyffwrdd – eich bysedd yw'r rhan fwyaf sensitif yn eich corff gyda 100 derbynnydd cyffwrdd ar flaen pob bys!

Pan rydych yn cyffwrdd â'r wal gerrig neu'r iorwg ar y meinciau derw anfonir negeseuon at eich ymennydd ynglŷn â'r teimlad. Ydy e'n galed, meddal, llyfn, garw, oer neu dwym?

Pulmeria Glas

Deilen bedwen arian

Golwg – synnwyr pwysig iawn, rydym yn defnyddio'n llygaid i weld lliwiau, siapiau, patrymau, symudiadau a gweithio allan pellter, prosesu'r wybodaeth yma gan ein hymennydd cyn cael ei storio fel atgofion. Sylwch ar y newidiadau yn yr ardd dros y tymhorau. Ydych chi'n gallu gweld bywyd gwyllt yn yr ardd?

Iâr Fach Lygadog

Sedum spectabile 'Brilliant'

Aderyn Du (ceiliog)

Ceirioswydden

Mae seiniau yn teithio trwy'r awyr, dŵr neu wrthrychau ac yn cyrraedd ein clustiau. Mae'n hymennydd yn prosesu'r seiniau rydym yn clywed gan ddewis pa rai sy'n newydd neu'n bwysig.

Ydych chi'n gallu clywed sïo'r gwenyn, yr adar yn canu neu'r gwynt yn chwythu trwy'r coed?

Gwenynen

Brongoch

Dail yr hydref

Blasu – Defnyddir perlysiau er mwyn ychwanegu blas ar fwyd. Tyfir planhigion megis afalau a mwyar duon ar gyfer bwyta ond cymerwch ofal gyda phlanhigion bwytadwy anhysbys. Mae'r planhigion yn yr ardd synhwyraidd yn darparu bwyd a neithdar ar gyfer yr adar, glöynnod byw, pryfed, a mamaliaid bach

Faint allwch chi weld heddiw?

Glas Cyffredin

Rhosmari

Mwyar Duon

Bywyd gwyllt – Mae'r ardd synhwyraidd wedi'i gynllunio er mwyn annog bywyd gwyllt, gan gynnwys planhigion â phaill sy'n darparu aeron yn ystod y gaeaf a chysgodfa. Mae cefn yr ardd wedi'i adael yn bwrpasol ar gyfer byd natur, sy'n darparu llwybr i'r bywyd gwyllt trwy'r coetir

Meithrin ein Gardd Natur - i annog a gwarchod adar, peillwyr a chwilod bach gydag amrywiaeth o blanhigion a llwyni brodorol.

Cronfa Dreftadaeth Heritage Fund
Powys
Menter Partneriaeth a Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government